




ytafod[®]

cylchgrawn cymdeithas yr iaith

GWERYN

haf 2023

ytafod²

Rhifyn haf 2023

Golygyddion: **Mared Llywelyn**
Carol Jenkins
Dylunio a Chysodi: **Carwyn Hedd**

Gair o'r Gadair
Hawliau Gweithwyr a'r Gymraeg
Talu'n Dyled
Celf a Chân a Phrotest
Ocsiwn Dathlu'r 60
Dramâu amserol
Dathlu ein Merched Peryglus
Y Sefyllfa Tai yng Nghymru
Ti'n gwbod y ffordd i Nefyn?

Robat Idris
Siân Howys
John Derek Rees
Toni Schiavone

Theatr Bara Caws
Tamsin Davies
Walis George
Mared Llywelyn



Gair o'r gadair

Ynys Enlli

Ambell dro, daw cyfle i encilio rhag y byd a'i bethau, a chael ennyd i ryfeddu. Lle nad oes teclyn digidol na chyfrifiadur na theledu na radio ar ein cyfyl – y pethau sy'n ein dallu rhag i ni weld, yn ein cadw â'n pennau i lawr yn ein cwman, ac yn drysu rhwydweithiau'r ymennydd. Cawn

hamdden i godi ein pen ac agor ein llygaid a chlirio ein meddyliau. Mewn lle y gallwn ddweud amdano: “*Mae yno flas y cynfyd*” chwedl Bob (R. Williams Parry). Lle felly yw Ynys Enlli, lle y bûm yn ddigon ffodus i dreulio wythnos yn ddiweddar.

Diolch i Ymddiriedolaeth Ynys

Enlli, mae'r lle hynod hwn wedi ei ddiogelu rhag trachwant masnachol na distryw amgylcheddol, ac yn croesawu ymwelwyr. Yn ddiweddar cafodd ei ddynodi yn Noddfa Awyr Dywyll Ryngwladol, y gyntaf yn Ewrop. Gallwch ddarllen mwy ar wefan Ymddiriedolaeth Ynys Enlli.

Dros y canrifoedd ystyrid Enlli yn gyrchfan ysbrydol, ac erys felly o hyd, yn ogystal â bod yn hafan i rai sy'n hoff o natur. Ac i bobl fel fi, sy'n hoff o wneud dim byd ar adegau! Ond y ffaith hynod yw fod eistedd i lawr yn 'gwneud dim byd' gan edrych allan dros y môr i gyfeiriad y Werddon, neu Ben Llŷn, neu Feirionnydd, neu allan draw i bellteroedd yr Iwerydd, ac ar ôl iddi dywyllu syllu ar y sêr, yn rhoi cyfle i hidlo popeth ymylol o'r pen, a hynny'n ddjarwybod bron.

Felly beth sydd ar ôl wrth i'r broses o encilio fynd rhagddi? Siŵr fod pawb yn wahanol, ond i mi, gweld ein bychander unigol yn y bydysawd, a bod y pethau i'w trysori wrth law, a'n bod ni i gyd yn rhan o batrwm oesol sydd – er yn ddirgelwch – yn fraint cael bod yn rhan ohono. Ac mai rhan o'r patrwm hwnnw yw ein bod ni yma yng Nghymru wedi dod i siarad iaith sy'n caniatáu i ni ymwneud â'n gilydd, rhoi enwau ar ein tai a'n caeau a'n mynyddoedd

a'n hafonydd, ac yn ein cysylltu ni efo'r rhai a fu'n troedio yma o'n blaenau. Yn ein galluogi i weld ein bod yn “*Cadw tŷ mewn cwmwl tystion*” chwedl Waldo. A bod pobloedd ledled y byd efo profiadau tebyg i ni, ac yn wynebu problemau cyffelyb, a'n bod yn rhan o deulu dynolryw. Mae'r un dyn bach ar Enlli yn sylweddoli ei fod yn frawd i bobl na wnaiff byth eu gweld na'u hadnabod, ei fod yn gefnder i'r morlo a'r wylan a'r deryn drycin, a bod y ddaear a'r môr yn cynnal ein bywydau.

A gweld, pan ddaw'r encil i ben, bod y llwybr yn eglur. Bod angen parhau i ymhyfrydu yn y wlad y cawn y fraint o fyw ynddi, a gwneud ein gorau glas i rannu'r rhodd o iaith efo'n plant, efo ymwelwyr, efo mewnfudwyr, ac yn wir brwydro i sicrhau bod y gallu i wneud hynny o fewn cyrraedd pawb. Bod angen brwydro i sicrhau bod ein pobl yn medru fforddio to uwch eu pen, a thalu am grys ar eu cefnau heb orfod gadael eu bröydd i chwilio am waith. Bod gwarchod amgylchedd yn hanfod bywyd. Bod cael gafael yn awenau llywodraethu gwlad yn medru ein galluogi i wireddu beth oedd yn freuddwydion cynt.

Mewn gwirionedd, dangosodd y Gymdeithas y ffordd ar hyd y llwybr yma yn barod. Ac mewn llawer mwy o fanylder! Medri ei darllen yn ein Maniffesto – “Cymru Rydd, Cymru Werdd, Cymru Gymraeg”.

Ar ôl encil, mae angen torchi llewys!

- Parhau i alw am Ddeddf Eiddo i warchod cymunedau a'r Gymraeg.
- Parhau i bwysu am Ddeddf Addysg Gymraeg i Bawb, i gyfoethogi plant a phobl ifanc drwy rodd y Gymraeg.
- Parhau i fynnu hawliau i'r Gymraeg.
- Parhau i bwysu am le teilwng i'r Gymraeg yn y byd digidol.
- Parhau i fynnu chwarae teg i gleifion sydd am wasanaeth Gymraeg.

Dydi hyn ddim yn llawer i'w ofyn mewn gwlad wareiddiedig, siawns? (Pa wareiddiad, ebe'r llais o'r gornel?!)

Os wyt ti am weld y pethau hyn hefyd, cefnoga waith y Gymdeithas. Tyrd i rafiau a phrotestiadau, sy'n dal yn angenrheidiol! Ond cofia hefyd fod y weithred ddistaw; y gweithgarwch lleol; y trafod efo cydnabod; i gyd yn ffyrdd o gefnogi. Ac wrth gwrs, mae gan y Gymdeithas sawl grŵp sy'n trafod a gweithredu ar bynciau penodol. Rydym ni bob tro yn awyddus i gael aelodau newydd i fod yn rhan o'r grwpiau. Felly beth amdani?

Cysyllta efo'r Swyddfa os am drafod neu am wybod mwy. Bydd croeso i ti i ymweld â'n stondin yn Steddfod Llŷn ac Eifionydd hefyd! Ti'n gwybod dy fod angen crys-t newydd!



Rhai o'r darnau unigryw sydd ar gael yn Ocsiwn y Dathlu – rhagor o fanylion ar dudalen 13.



Merched Peryglus: profiadau merched yn y Gymdeithas
2.00pm, dydd Llun, 7 Awst
Stondin Cymdeithas yr Iaith

Celf, Cân a Phrotest
Trafodaeth gyda Toni Schiavone, Iwan Bala, Siân Parri ac eraill
2.00pm, dydd Mawrth, 8 Awst
Stondin Cymdeithas yr Iaith

Rali Deddf Eiddo – Dyma'r Cyfle
2.00pm, dydd Mercher, 9 Awst
Stondin Cymdeithas yr Iaith a gorymdaith draw i stondin y Llywodraeth

Lansio taflen Hawliau Gweithwyr ar y cyd â'r TUC
2.30pm, dydd Iau, 10 Awst
Stondin Cymdeithas yr Iaith

Ocsiwn y Dathlu
gyda Danny Grehan a Dewi Pws
5.30pm, dydd Iau, 10 Awst
Pabell y Cymdeithasau 2


Deddf Addysg Gymraeg i bwy?
2.30pm, dydd Gwener, 11 Awst
Pabell y Cymdeithasau 2

Hawliau Gweithwyr a'r Gymraeg

Siân Howys, Cadeirydd y Grŵp Hawl

Mae'n bleser cyhoeddi bod y Grŵp Hawl wedi bod yn gweithio'n agos gyda TUC Cymru gyda'r nod o gefnogi hawliau gweithwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ynghyd â datblygu camau gweithredu ymarferol dros gryfhau statws ac amlygrwydd y Gymraeg drwy'r mudiad undebau llafur a'r agenda gwaith teg.

TUC Cymru yw corff cynrychioliadol yr undebau llafur yng Nghymru. Gyda 48 o aelod-undebau, mae'n cynrychioli tua 400,000 o weithwyr ac yn ymgychu dros fargen deg yn y gwaith ac am gyfiawnder cymdeithasol gartref ac yn rhyngwladol. Mae'n bodoli i wella amodau economaidd a chymdeithasol gweithwyr yng Nghymru. Mae TUC Cymru newydd sefydlu Fforwm y Gymraeg ar gyfer cynrychiolwyr undebau.



Mae gan Gymdeithas yr Iaith hanes hir o gydweithio gydag undebau llafur yn y frwydr dros swyddi, amodau gwaith teg a thros sicrhau hyfywedd economaidd a chymdeithasol i'r Gymraeg a'n cymunedau. Cofiw'n arbennig am waith aelodau'r Gymdeithas yn cefnogi Streic y Glowyr a Streic y Chwarelwyr yn yr wythdegau, ac yn fwy diweddar ein cefnogaeth i'r streiciau presennol dros amodau gwaith a chyflogau teg ac yn erbyn effeithiau polisïau llymder. Rydym hefyd wrth gwrs yn trafod ac yn lloio undebau yn gyson fel rhan o'n hymgyrchu gan gydnabod eu pwysigrwydd a'u cyfraniad i ddyfodol Cymru a'r Gymraeg.

Yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol eleni, bydd y Gymdeithas a TUC Cymru yn lansio Cytundeb Cydddealltwriaeth fydd yn llywio ein gweithgareddau ar y cyd. Byddwn hefyd yn cyhoeddi taflen wybodaeth i weithwyr am eu hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu sefyllfa gwaith. Mae

TUC Cymru wedi trefnu cyfarfod ar faes yr Eisteddfod gyda phanel o gynrychiolwyr undebol ac eraill, gan gynnwys ein cadeirydd cenedlaethol Robat Idris, i drafod sut y gall undebau a chyflogwyr yng Nghymru gydweithio gydag eraill ar lefel strategol ac ymarferol i hyrwyddo hawliau'r Gymraeg yn y gweithle.

Os wyt ti'n aelod o undeb, cysyllta â'r Grŵp Hawl. Bydd yn wych clywed

oddi wrthot ti wrth i ni gychwyn ar gyfnod newydd cyffrous: sian@cymdeithas.cymru.

- Lansio taflen a chytundeb cydddealltwriaeth gyda TUC Cymru, stondin y Gymdeithas, dydd Iau 10fed Awst am 2.30 y prawn.
- Cydraddoldeb: Gwaith teg, hawliau'r Gymraeg yn y gweithle a'n cymunedau Cymraeg, Pabell y Cymdeithasau, dydd Iau 10fed Awst am 3.30 y prawn.

Talu'n Dyled

John Derek Rees, Menter Cwm Gwendraeth Elli

"Ein nod yw creu canolfan i'r gymuned a'r genedl sy'n anrhydeddu aberth y Beasleys drwy addysgu cenedlaethau o Gymry a thu hwnt am ein treftadaeth a'n hiaith."

Ers degawd, mae bwthyn bach y Beasleys wedi bod yn eistedd yn wag ar y bryn ar gyrion Llanelli ac yn prysur adfeilio. Yn y bwthyn 'dau lan, dau lawr' yn yr Allt, Llangennech fe safodd y teulu bach o bedwar yn 'styfnig o gadarn dros eu hawl i gael llythyr treth yn y Gymraeg. Fe

gymerodd hi wyth mlynedd, o 1952 hyd at 1960, i'r cyngor lleol ymateb yn yr iaith yr oedd 90% o bobl Llanelli yn ei siarad ar y pryd.

Mae Delyth, merch Trefor ac Eileen, yn cofio'r cartref yn un hapus iawn, er i ni wybod ei fod yn wag iawn ar adegau, gyda'r beilliffs yn dod i fynd â'u heiddo i ffwrdd ar ôl i'r athrawes a'r glöwr sefyll yn y llys dro ar ôl tro.

Fe gafodd Eileen ei hethol i'r union gyngor oedd yn ei herlyn ac yn ei

herlid. Yn ôl y sôn, roedd wyneb Eileen yn llawn gras wrth iddi gymryd ei sedd ar y cyngor, gyda sawl un o'r cynghorwyr yn edrych y ffordd arall allan o gywilydd. Cododd fwy o embaras amser egwyl wrth i'r cyngor orfod esbonio bod dim tŷ bach i Eileen gan nad oedd y cyngor wedi rhagweld y byddai menyw byth yn eistedd yn y siambr.

Erbyn hyn mae rhif 2, Yr Allt ar werth, ac rydym ni, Menter Cwm Gwendraeth Elli yn awyddus i geisio prynu'r cartref er mwyn adfer hanes a diwylliant y fro a hynny'n benodol mewn cyfnod pan mae'r iaith ar drai yn yr ardal. Mae'r galw am ganolfan Gymraeg yn Llanelli yn fwy nag erioed, yn enwedig yn dilyn canlyniadau'r cyfrifiad.

Ein gweledigaeth yw creu canolfan agored ar gyfer ymwelwyr gan gynnwys disgyblion ysgol, dysgwyr y Gymraeg, Cymry sydd am loywi iaith a Chymry Cymraeg. Bydd modd aros yma, i ymwelwyr gael



eu trochi yn yr iaith. Bydd y ganolfan yn cynnwys gofod rhyngweithiol fydd yn olrhain hanes brwydr yr iaith, y frwydr a ddechreuodd yn y bwthyn ar y bryn.

Mae safiad dewr teulu'r Beasleys yn dal i ysbrydoli, ddegawdau yn ddiweddarach.

Mae'r Fenter yn brysur yn ysgrifennu ceisiadau grant er mwyn datblygu'r prosiect a gwireddu breuddwyd. Yn ogystal, rydym yn codi arian ar gyfer ein prosiect; os gwelwch yn dda, wnewch chi ystyried cefnogi ein hymgyrch drwy fynd i gofundme.com/beasleys neu drwy anfon sic i: Menter Cwm Gwendraeth Elli, 11-17 Heol

Coalbrook, Pontyberem. SA15 5HU.

Mae'n bwysig ein bod ni'n anrhydeddu eu haberth.



Celf a Chân a Phrotest

Toni Schiavone

Mae'r cyswllt rhwng cerdd, cân a phrotest yn un amlwg ac wedi bod yn rhan bwysig o ymgyrchoedd Cymdeithas yr Iaith ers y cychwyn cyntaf. Yn wir, ar ddiwedd y chwedegau yn arbennig, roedd y cerddorion yn rhan o'r protestio ac mae hyn wedi bod yn wir, i raddau llai amlwg efallai, ers hynny. Fodd bynnag, mae'r cyswllt rhwng celf, cân a phrotest wedi bod yn llai amlwg – er wrth gwrs mae celfyddyd dylunio cloriau recordiau a phrotestiadau iaith i'w gweld ar recordiau, casetiau a chryno ddisgiau. Rhai enghreifftiau o hyn yw'r record 7" Y Chwyldro, *Rhaid yw eu tynnu i lawr* (1971), y record 12" aml-gyfrannog, *Tafodau Tân* (1973), y record 7" *Dull Di-Drais* (1986) gan Llwybr Laethog a chryno ddisg *O'r Gad* a ryddhawyd yn 1991.



Yr hyn sy'n arbennig iawn am albym 'Nid yw Cymru ar Werth' yw'r cyswllt uniongyrchol a bwriadol rhwng celf a chân a phrotest drwy gydweithrediad un o arlunwyr pwysicaf y Gymru gyfoes, Iwan Bala, Cymdeithas yr Iaith ac amrediad eang o gerddorion a grwpiau gyda chaneuon protest. Hunaniaeth, iaith, diwylliant a gwleidyddiaeth yw'r themâu sydd wedi sbarduno dychymyg Iwan Bala i greu celfyddyd hollol



unigryw, ac mae ei ddarluniau yn ymwneud yn uniongyrchol â thirlun Cymru a'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru yn ogystal ag mewn rhannau eraill o'r byd.

Mae'r cyfraniadau gan gerddorion fel Catrin O'Neill, Steve Eaves, Gwenno ac Elidyr Glyn ynghyd â llun hynod drawiadol Iwan Bala yn datgan




cefnogaeth glir i'r ymgyrch dros hawl pobl i fyw yn eu cymunedau a rheolaeth dros y farchnad dai ac eiddo.

Nifer cyfyngedig o'r gryno ddisg a'r feiniyl sydd ar gael, ac yn ogystal â hynny bydd nifer cyfyngedig iawn o brintiau o'r gwaith celf ar gael. Yn ystod wythnos y Steddfod bydd y llun gwreiddiol yn cael ei werthu yn yr ocsiwn, a mawr yw ein diolch i Iwan am gyfrannu'r llun a chaniatáu i ni wneud printiau er budd gwaith ymgyrchu'r Gymdeithas.

Bydd digwyddiad i hyrwyddo'r albym ar stondin y Gymdeithas

am 2.00 ar bawn dydd Mawrth yr Eisteddfod Genedlaethol – trafodaeth bellach ar gelf, cân a phrotest gydag Iwan Bala, Siân Parri, Toni Schiavone, ac eraill.



OCHR A		OCHR B
N.Y.C.A.W. – GWENNO (GWENNO SAUNDERS @ HEAVENLY RECORDS)		TRECADWGAN – CYNEFIN (OWEN SHIERS)
AWYR AGORED – OMALOMA (GEORGE AMOR, LLŶR PARI @ CYHOEDDIADAU CAE GWYN)		TRIONGL DYFED – ROGUE JONES (YNYR IFAN, BETHAN MAI @ LIBERTINO)
BYW EFO HI – ELIS DERBY (ELIS DERBY @ CYHOEDDIADAU CŴSH)		PWY SY'N BYW'N Y PARROG – BWCA (STEFFAN REES @ CYHOEDDIADAU HAMBON)
TYDDYN Y GWIN – CATRIN O'NEILL (CATRIN O'NEILL, ROBAT IDRIS)		AFFRIKANERS Y GYMRU NEWYDD – STEVE EAVES (STEVE EAVES @ CYHOEDDIADAU SAIN)
NÔL I'R FRO – ENDAF EMLYN (ENDAF EMLYN @ CYHOEDDIADAU SAIN)		Y DREF WEN – ELIDYR GLYN (TECHWYN IFAN @ CYHOEDDIADAU SAIN)
		HWYLIO GYDA'R LLI – LOWRI EVANS (LOWRI EVANS, HEDD LADD-LEWIS @ SHIMI)

RACAW
tan
Nos Wener 11-08-23

DINAS

Neges gref am ail gartrefi yn rhaglen artistig Bara Caws

Emyr Humphreys
W.S Jones (Wil Sam)

Bydd tair sioe nesaf Theatr Bara Caws yn ymwneud ag ail dai. Bydd cyfle i weld y gyntaf ohonynt – Dinas – yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol.

Bydd y nesaf – Draenen Ddu – yn teithio o amgylch Cymru ym mis Hydref ac mae Tŷ, fydd hefyd yn trafod yr argyfwng tai, yn gynhyrchiad tair ffordd rhwng Cymru, yr Alban ac Iwerddon, a bydd modd ei weld rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2024. Cadwch eich llygaid yn agored am y ddwy sioe hyn dros y misoedd nesaf.

Mae tynged Dinas yn y fantol. Dibynna'r perchennog, John Barig, yn llwyr ar ffyddlondeb Ossie ei was, ond mae'r cartref yn prysur ddadfeilio, a daw'n amlwg fod gan bawb sy'n troi o'u cwmpas ddiddordeb dwfn yn nhynged yr hen le – at eu dibenion eu hunain wrth gwrs...

Mae Bara Caws yn cael cyfle i ailgodi'r llen ar gomedï glasurol a gydsgwennwyd gan ddau o fawron ein

llên – yr arobryn Emyr Humphreys a'r unigryw W.S (Wil Sam) Jones.

Llwyfannwyd Dinas am y tro cyntaf ym 1968 gan Gymdeithas Ddrama Coleg y Brifysgol, Bangor dan gyfarwyddyd Dr John Gwilym Jones. Fe'i darlledwyd ar HTV Cymru ym 1972, ac fe'i llwyfannwyd a'i theithio unwaith eto gan Gwmni Theatr Cymru yn 1981.

Yn ôl yr awduron: "Ein nod fel arfer yw difyrru: ond os ceir ambell ergyd yma ac acw gorau oll." – ac er i'r ddrama gael ei 'sgwennu ym 1970, mae'r 'ergydion' mor berthnasol ag erioed.

Dyma gyfle euraidd i weld rhai o dalentau comedi gorau Cymru ar lwyfan gyda'i gilydd – a hynny am wythnos yn unig yn Neuadd Dwyfor, Pwllheli yn ystod wythnos Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd – felly archebwch eich tocynnau yn syth bin!

Mae'r cast ardderchog yn cynnwys

Mae'r feiniyl, y CD a phrints o'r gwaith celf hefyd ar gael o siop y Gymdeithas:

siop.cymdeithas.cymru

Iwan Charles, Richard Elfyn, Carys Gwilym, Dyfan Roberts, Mari Wyn, Rhodri Trefor, a Llion Williams, gyda Betsan Llwyd yn cyfarwyddo.

Pris tocynnau yw £15, neu £13 gyda gostyngiad (dros 60, myfyriwr,

plenty) ac mae tocynnau ar gael drwy Neuadd Dwyfor www.neuaddwyfor.cymru.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â steve@theatrbaracaws.co.uk.



Ocsiwn y Dathlu

5.30, pnawn lau, 10 Awst

Pabell y Cymdeithasau 2



Flwyddyn yn ôl, roedd Cymdeithas yr Iaith yn dathlu ei 60 mlwyddiant. Mae dathlu unrhyw ben-blwydd yn sbarduno trafodaethau a llawer o hel atgofion, ac roedd hynny'n wir am ddathliadau'r Gymdeithas hefyd. Arweiniodd hynny at y syniad o gynnal ocsiwn i werthu eitemau oedd yn ymwneud â gweithgarwch Cymdeithas

yr iaith ers ei sefydlu yn 1962, a phenderfynwyd mai'r lle gorau i gynnal ocsiwn o'r fath oedd maes yr Eisteddfod Genedlaethol.

Dyma fynd ati felly i gasglu eitemau, gan gynnwys darn o gelf gwreiddiol *Nid yw Cymru ar Werth* gan Iwan Bala, llun wedi'i fframio gan Angharad Tomos, a geiriau un o ganeuon Dafydd Iwan yn ei lawysgrifen. Mae modd gweld yr holl eitemau ar ein gwefan yn

cymdeithas.cymru/digwyddiadau/ocsiwn60, neu cysylltwch â'r swyddfa am gopi o'r catalog. Nid yw pob eitem yn ymwneud â gweithgarwch y Gymdeithas, ond mae llawer – ac mae'n bosib y bydd gan Dewi Pws syrpeis ar ddiwedd yr ocsiwn hefyd!

Bydd cyfle i gynnig am yr eitemau yn yr ocsiwn ar bawn dydd lau y Steddfod ym Mhabell y Cymdeithasau 2, ond mae modd anfon cynigion o flaen llaw hefyd:

- gallwch e-bostio eich cynnig i post@cymdeithas.cymru hyd at bump o'r gloch ddydd Mercher, 9 Awst.
- gallwch gyflwyno cynnig mewn person ar stondin y Gymdeithas (rhif 501-502) hyd at bedwar o'r gloch ar ddiwrnod yr ocsiwn ei hun.

Cofiwch gynnwys eich manylion cyswllt, enw'r eitem a'ch cynnig.

Gwell fyth, dewch draw i'r ocsiwn ei hun. Gyda Dewi Pws a Danny Grehan wrth y llyw byddwch yn sicr o gael hwyl, yn ogystal â helpu i godi arian i'r Gymdeithas a'i hymgyrchoedd!



Dathlu ein Merched Peryglus

Tamsin Cathan Davies

Ym mis Awst, bydd gwasg Honno yn cyhoeddi casgliad o hanesion gan ferched sydd wedi bod yn weithredol gyda Chymdeithas yr Iaith ers ei sefydlu yn 1962, sef *Merched Peryglus: profiadau merched yn y Gymdeithas*.

Gan ddechrau yng nghyfarfod busnes cyntaf y Gymdeithas a gorffen yn yr oes ddigidol, mae'n cynnwys cyfraniadau gan dros 30 o ferched yn eu geiriau eu hunain, lluniau, adroddiadau o bapurau newydd, cerddi ac erthyglau o'r Tafod. Mae'r hanesion yn disgrifio 60 mlynedd o ymgyrchoedd dros ddogfennau swyddogol, arwyddion ffyrdd, sianel deledu, addysg Gymraeg, tai a chynllunio, statws swyddogol i'r Gymraeg a sicrhau dyfodol i gymunedau Cymraeg. Ymysg y cyfranwyr, mae cyn-gadeiryddion megis Helen Prosser, Siân Howys, Menna Machreth a

Bethan Williams, ac ymgyrchwyr adnabyddus megis Meinir Ffransis, Enfys Llwyd a Helen Greenwood.

Ysbrydolwyd y llyfr gan lun Gwenllïan Llwyd o grŵp o fenywod a garcharwyd dros y degawdau am

ymgyrchu dros yr iaith. Un o'r menywod sy'n ymddangos yn y llun yw Angharad Tomos, a oedd yn ddewis naturiol i olygu'r casgliad. Ces i wahoddiad fel aelod o bwyllgor Honno i helpu gyda'r gwaith o gael cyfraniadau gan y to iau. Cafodd y cyfranwyr wahoddiad i fynd ar eu trywydd eu hunain, ac

mae amrywiaeth o ymatebion am ymgyrchu gan ferched a/neu o fod yn ferch yn ymgyrchu. Gobeithio, felly, ei fod yn rhoi darlun o'r mudiad a'r gymdeithas ehangach drwy'r blynyddoedd, ac yn dangos sut mae lle merched yn y Gymdeithas wedi newid wrth i le merched yn y byd yn

gyffredinol newid. Rydym yn clywed am gefndiroedd gwahanol y merched – rhai o gefndiroedd uniaith Gymraeg, rhai oedd wedi dysgu'r Gymraeg a rhai oedd wedi'u magu yn siarad Cymraeg y tu allan i Gymru, a hefyd beth oedd wedi'u symbylu i ymuno â'r Gymdeithas, y gwahanol rolau maent wedi'u dal, a'r math o weithredu a'r gweithgareddau maent wedi ymgymryd â nhw.

Gyda merched yn chwarae rôl mor flaenllaw yn y Gymdeithas erbyn hyn, mae'n synnu rhywun i feddwl nad oedd cadeirydd benywaidd am yr 20 mlynedd cyntaf yn hanes y mudiad! Meri Huws oedd y cyntaf yn 1981.

Mewn gwirionedd, roedd nifer y merched oedd yn dal swydd ar y Senedd yn fach i ddechrau. Yn 1969, er enghraifft, roedd saith swyddog, pob un yn ddyn, ac wyth aelod o'r pwyllgor canol, gyda saith o'r rhain yn ddynion hefyd. Y ddiweddar Gwyneth Hunkin, y fenyw gyntaf i

fynd i'r carchar dros yr iaith, oedd yr unig aelod benywaidd. Mae Menna Elfyn yn cofio un aelod gwrywaidd yn taeru na fyddai'r aelodau byth yn derbyn menyw yn gadeirydd a'i fod yn siarad dros bob dyn yn y Gymdeithas! Wrth reswm, roedd e'n anghywir, a dros y blynyddoedd rydym ni'n gweld y cyfranwyr yn mynd o goginio cinio i'r dynion i fod yn gadeiryddion ac arweinwyr.


Gwasg Menywod Cymru

Gyda straeon am anufudd-dod sifil a chyfnodau yn y carchar, gwaith lobiö, trefnu gigs, teithiau cerdded, ysgrifennu a chynghreirio ag ieithoedd lleiafiedig eraill, y gobaith yw y bydd y gyfrol yn ysbrydoli'r genhedlaeth iau i ymfalchïo yn hanes y frwydr iaith a diolch i bawb sydd wedi gweithredu dros y blynyddoedd.

Bydd digwyddiad am y llyfr yn yr Eisteddfod, ar stondin y Gymdeithas am 2.00, prawn Llun, 7 Awst.



Llun: Helen Greenwood

Y Sefyllfa Tai yng Nghymru

Walis George

Mae ein cymunedau gwledig ac arfordirol yn wynebu prinder digynsail o dai gwirioneddol fforddiadwy. Mae'r boblogaeth leol yn cael ei hallgáu fwyfwy rhag gallu sicrhau cartref addas i'w rentu neu ei brynu oherwydd anfantais economaidd.

Mae'r anghydraddoldeb hwn yn gorfodi llawer o deuluoedd o'u cymunedau, gan effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau hanfodol, dyfodol ysgolion gwledig a'r gweithlu sydd ar gael yn lleol. Mae'r argyfwng tai gwledig cudd yn achosi difrod gwirioneddol i unigolion, teuluoedd a'r economi leol, ac yn bygwth cynaliadwyedd ein cymunedau Cymraeg.

Rydyn ni wedi hen gydnabod bygythiad athroniaeth neo-ryddfrydol marchnadoedd rhydd a dadreoleiddio i gynaliadwyedd cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol. Enghraifft amlwg

o'r dogma hwn oedd cyflwyno'r Hawl i Brynu ym 1980 a arweiniodd at werthu dros 139,000 o gartrefi cymdeithasol oedd ar rent yng Nghymru cyn ei ddiddymu yn 2019. Mae gostyngiad mor aruthrol yn nifer y tai cymdeithasol wedi cyfrannu'n sylweddol at broblemau tai presennol Cymru.



fyddai'n cynnig dull system gyfan o ymdrin â pholisi tai a chynllunio, yn seiliedig ar yr egwyddor y dylai anghenion tai ddod cyn elw ac y dylid cydnabod cartrefi fel asedau cymunedol hanfodol yn hytrach na chyfleoedd buddsoddi. Byddai'r egwyddor hon yr un mor berthnasol i bob rhan o Gymru.

Cyhoeddodd y Llywodraeth bapur gwyrdd ar "dai digonol" yn ddiweddar, mae disgwyl i hwn fod yn sail i'r Papur

Gwyn ar Ddeddf Eiddo a Rhenti Teg sydd wedi ei addo yn y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru. Does dim sôn yn hwnnw am reoleiddio'r farchnad, felly byddwn ni'n pwysu am gynnwys cynigion ar gyfer Deddf Eiddo flaengar yn y Papur Gwyn, ynghyd ag ymrwymiad i ddeddfu yn ystod tymor y Senedd bresennol.

Mae'n amlwg bod angen cynyddu'r pwysau felly galwn ar bobl o bob rhan o Gymru i ymuno â'r ymgyrch - dewch i rali dorfol ar faes yr Eisteddfod, ddydd Mercher y 9fed o Awst.

Crynodeb yw hwn o erthygl blog sydd i'w gweld ar ein gwefan. Darllenwch hi'n llawn yma: cymdeithas.cymru/blog/y-sefyllfa-tai-yng-nghymru/

Ti'n gwbod y ffordd i Nefyn?

Mared Llywelyn

(Rhybudd - lot o puns Cae yn Nefyn, Anweledig ar y ffordd)

Bydd, mi fydd pawb yn gwbod y ffordd i Nefyn erbyn diwedd wythnos yr Eisteddfod, gan mai yma fydd cartref gigs Cymdeithas eleni, a ninnau oll yn partio ar y pafin!

Hanes y dref

Ydi, mae Nefyn yn dref. Er mai penra mae pawb yn ddweud yn lleol.

Mae Nefyn ar arfordir gogledd orllewin Penrhyn Llŷn a'r dref agosaf yw Pwllheli, sydd tua saith milltir i ffwrdd ar hyd yr A497.

Mae'r enw 'Nefyn' yn tarddu o'r enw Gwyddeleg 'Cnaimhin', ac ystyr yr enw yw 'sant bychan' neu 'sanctaid'. Daw'r cyfeiriad cynharaf at Nefyn o ddogfennau cofiant 'Historia Gruffudd ap Cenan', môr-leidr o dras Gwyddelig, Llychlynnaidd a Chymreig oedd yn dad i Owain Gwynedd ac yn daid i Lywelyn Fawr.

Cychwynnodd fel pentre pysgota bach, ac erbyn yr unfed ganrif ar ddeg roedd castell mwnt a beili yma ac roedd yn un o brif ganolfannau Tywysogion Gwynedd. Mae sôn am Edward y cyntaf yn cynnal ymryson yng Nghae Iorwerth yn

1284 i ddathlu ei fuddugoliaeth dros y Cymry, ac erbyn 1355 daeth yn fwrdeistref rydd ac yn ganolfan fasnachol lwyddiannus.

Oddeutu 1400, llosgwyd y dref gan filwyr Owain Glyndŵr oherwydd ei chysylltiadau â Choron Lloegr, a bu'r dref yn hir iawn yn ailgodi wedi hynny.

Ar hyd y canrifoedd, mae'r môr wedi chwarae rhan annatod yn hanes Nefyn a'i phobl. Adeiladwyd 120 o longau yn Nefyn rhwng 1760 ac 1880, ac roedd sawl teulu yn cynnal eu hunain drwy bysgota am benwaig. Pysgodyn olewog yw hwn a fyddai'n cael ei halltu, ei biclo neu ei fygu.

Daeth Nefyn yn enwog fel prif fan pysgota penwaig, a sawl un yn ei alw'n 'Brifddinas Penwaig Cymru'.

Yn Nefyn hefyd y llosgwyd y tŷ haf cyntaf yn ymgyrch Meibion Glyndŵr yn y saithdegau, ac yma y dechreuodd ymgyrch Hawl i Fyw Adra yn 2020.



Lle ddylwn i fynd?

Llwybr Arfordir

Un o'r pethau gorau am Nefyn a'r ardal yw'r golygfeydd anhygoel o'r llwybr arfordir. Gallwch wneud cylchdaith braf ar hyd y llwybr i gyfeiriad bae Porthdinllaen lle mae tafarn enwog Tŷ Coch, gan fwynhau peint wrth edrych draw am fynyddoedd yr Eifl ac Eryri yn y pellter.



Mae'r rhan fwyaf o lwybr arfordir Nefyn yn hygyrch i gadeiriau olwyn a choets babi. Gallwch gerdded i lawr i'r traeth o'r llwybr arfordir hefyd, gan fwynhau nofio yn y bae hudolus.

*Mae haul ar dywod melyn
Haf y de lle mae nef dyn.*

A nofiaist ym mae Nefyn?

Awdl Foliant i Gymru, Emrys Edwards

Garn Boduan

Mae'r Llwybr i Garn Boduan yn mynd o Nefyn ei hun neu ar lôn Boduan i gyfeiriad y Ffôr. Bryngaer o Oes yr Haearn ydyw, ac mae hyd at 170 o dai Gwyddelod, neu gytiau crynion wedi eu cyfri yma. Mae'r olygfa o'r copa yn mynd â'ch gwynt, i gyfeiriad yr Eifl, bae Porthdinllaen, Pwllheli a gweddill Llŷn. Yma heb os fydd yr olygfa orau o faes yr Eisteddfod ym Moduan.

Amgueddfa Forwrol Llŷn

Amgueddfa wedi'i leoli mewn Eglwys ar Stryd y Llan, mi wnewch ei ffendio dim ond i chi chwilio am geiliog y gwynt ar ffurf llong!

Maent yn defnyddio creiriau hanesyddol, dogfennau a'r dechnoleg ddiweddaraf er mwyn arwain y gymuned leol ac ymwelwyr o bob oed ar daith gofiadwy drwy hanes morwrol a chymdeithasol Llŷn. Cerwch â'r plant i brofi sut beth oedd byw a chysgu mewn caban llong, a synnwch at sgerbwd dynes gafodd ei darganfod o dan dir yr eglwys, sydd bellach wedi ei henwi'n Madryn.

Llyfrgell Nefyn

Oes, mae 'na lyfrgell yn Nefyn – a lle well am hoe fach yn ystod prysurdeb yr wythnos? Yn ogystal â dewis eang o lyfrau ffuglen, mae yna adran blant groesawgar, adran ar hanes lleol, cylchdeithiau a llwybrau cerdded amrywiol, a chyfrifiaduron.

Y Tŵr

Yn safle'r Tŵr oedd y Castell Mwnt a Belli gwreiddiol, yna adeiladwyd Tŵr arno yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan oedd pysgota penwaig ac adeiladu llongau yn ei anterth. Mae wedi ei restru fel adeilad Gradd II, yn enghraifft brin o dŵr gwyllo arfordirol.

Lle i fwyta?

Gwesty Nanhoron

Heb os, mae'r Nan yn gwneud y cinio Sul mwyaf blasus erioed. Mae digonedd o ddewis ar y fwydlen nos yn ogystal. Gallwch hefyd fynd i'r bar cefn am lymaid.

Tŷ Coffi

Siop goffi ar ben ucha'r Stryd Fawr. Lle perffaith i gael paned o de neu goffi. Mi gewch frecwast llawn, brechdanau a chacennau yno hefyd.

Caffi Ni

Mae Caffi Ni wedi'i leoli yn Wern, sydd rhwng Nefyn a Phistyll. Mae peis Nia a Dylan yn enwog, ond y te prynhawn yw seren y sioe. Cewch groeso cynnes gan y teulu oll, a golygfa fendigedig o fae Porthdinllaen ar y gorwel.

Caffi Becws Isllyn

Caffi glan-môr sydd ar y Lôn Gam ar y ffordd i lawr i'r traeth. Cerwch yno ben bore am baned a brechdan bacwn i frecwast.

Bombay Joes

Bwyty Indiaidd lle mae modd eistedd i mewn, neu gael pryd i fynd. Ar agor tan 11pm!

Pizza a Kebab Nefyn

Neu, Pekish Nefyn... (enw siop

kebab Pwllheli ydi ‘Pekish’ felly’n naturiol rhaid galw pob siop kebab arall yn ‘Pekish’ hefyd).

Bryncynan

Er bod ei lun tu allan i'r dafarn, does gan 'rhen Gynan ddim i'w wneud â'r safle mewn gwirionedd (Cynan arall o'r chweched ganrif sydd y tu ôl i'r enw)

Y lle perffaith i gael 'pyb gryb' a maes chwarae hwyliog i'r plant yn yr ardd gwrw.

Lle ga i beint?

Yr Heliwr

Gobeithio na fydd o wedi cau... (sori!) Tafarn Gymunedol Gymreig sydd â naws agos-atoch a chroesawgar. Wedi ei hanfarwoli yn y gân Cae yn Nefyn wrth gwrs.

Clwb Bach

Roedd angen bod yn aelod i gael mynediad i'r clwb ers talwm, ond

does dim angen bellach. Yma fe welwch y locals i gyd yn sgwrsio dros beint. A dyma'r lle olaf i gau!

Cwrw Llŷn

Yn fragdy a bar, mae Cwrw Llŷn wedi bod yn bragu cwrw crefft ers 2011 ac mae'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yn greiddiol i'w gweledigaeth. Mae'r Brawd Houdini a Largo wastad yn mynd i lawr yn dda.

Cofiwch am y siopau lleol hefyd



Siop Madryn / Spar Nefyn

Yr Hen Bost / Siop Ashley

Fferyllwyr Llŷn

Edrychwn ymlaen i'ch croesawu ym mis Awst am wythnos wych o gigs dan faner y Gymdeithas, felly...

be da ni yn mynd i neud?

(‘na i adael i chi ateb).

FFURFLEN YMAELODI 2023-24

Ar ôl ei llenwi, dychwelwch y ffurflen i: **Cymdeithas yr Iaith**, Canolfan Merched y Wawr, Stryd yr Efail, Aberystwyth, SY23 1JH. Diolch yn fawr!

Byddwn yn defnyddio'r manylion yma yn unol â pholisi preifatrwydd y Gymdeithas – gofynnwch am gopi neu ewch i cymdeithas.cymru/preifatrwydd.

1. EICH MANYLION

Enw: _____
Cyfeiriad: _____
Cod post: _____
Rhif ffôn: _____ Dyddiad geni (dewisol): ____ / ____ / ____
E-bost: _____

2. CATEGORI AELODAETH

☐ Llawn (£2 y mis) *(lleiafswm yw'r ffigurau hyn – gwerthfawrogi pob cyfraniad)*
☐ Gostyngol (£1 y mis) (e.e. disgyblion ysgol, myfyrwyr, di-gyflog, pensiynwyr)
Os ydych yn yr ysgol neu goleg, nodwch ym mhle: _____

3. DULL TALU

a. Archeb banc: Dyma'r ffordd orau o dalu eich tâl aelodaeth. Cytundeb rhyngoch chi a'ch banc yw hwn a gallwch sefydlu archeb drwy eich cyfrif/ap bancio. Dyma'r manylion fydd eu hangen arnoch: enw'r cyfrif: **Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**; cod didoli: **40-16-02**; rhif y cyfrif: **81072102**. Cofiwch roi gwybod i ni ar ôl sefydlu archeb banc.


b. Talu am flwyddyn yn unig: Rwy'n amgáu taliad o £_____ ar gyfer aelodaeth blwyddyn. Dull talu: arian parod ☐ siec ☐ cerdyn banc ☐

c. Talu'n fisol gyda cherdyn banc: Ewch i cymdeithas.cymru/ymaelodi.

4. HELPU GYDA GWAITH Y GYMDEITHAS

(nodwch unrhyw arbenigedd, diddordebau neu sgiliau sydd gennych a allai fod o fudd i'r Gymdeithas):

At ddefnydd swyddfa: wedi derbyn cerdyn aelodaeth? ☐





cymdeithas
yr iaith

NOS SADWRN
5 AWST

CHROMA
FFENEST
HAP A DAMWAIN
BOOKHOUSE

NOS SŴR
6 AWST

HMS MORRIS
ANI GLASS
CRINC
MR PHORMULA

NOS LUN
7 AWST

COWBOIS RHOS
BOTWNNOC
PLU
TANT
TEGID RHYS

NOS FAWRTH
8 AWST

BRAGDY'R
BEIRDD
YN DIFLEWNO
PARTI AR
Y PAFIN

NOS FERCHER
9 AWST

BWNCATH
TWMFFAT
TACLA
LO-FI JONES

NOS IAU
10 AWST

THE JOY
FORMIDABLE
PAPUR WAL
PYS MELYN
MALI HAF

NOS WENER
11 AWST

MR
LOS BLANCOS
NAR
MAES PARCIO

NOS SADWRN
12 AWST

BOB DELYN A'R
EBILLION
GAI TONS A'R
BAND
ESTELLA
MYNADD

GWESTY NANHORON, NEFYN

CYMDEITHAS.CYMRU/STEDDFOD23